CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD O
GYNGOR SIR
YNYS MÔN**

**a gynhelir yn**

**SIAMBR Y CYNGOR
SWYDDFA'R SIR
LLANGEFNI**

**DYDD IAU,
4 RHAGFYR 2014**

**am 2.00 o'r gloch**

# SUMMONS AND AGENDA

**for a**

**MEETING OF THE
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL**

**to be held at the**

**COUNCIL CHAMBER
COUNCIL OFFICES
LLANGEFNI**

**THURSDAY,
4 DECEMBER, 2014**

**at 2.00 p.m.**

**R H A G L E N**

1. **CYFLWYNIAD – PARC GWYDDONIAETH**

Cyflwyniad gan Mr I W Jones, Cyfarwyddwr Rhaglen, Prifysgol Bangor.

2. **COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau a'u harwyddo, gofnodion y cyfarfodydd o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol :-

- 30 Medi, 2014 (Arbennig)
- 9 Hydref, 2014

3. **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog ynghylch unrhyw eitem o fusnes.

4. **DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"O dan Adran 100(A)(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd gallai olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i ddiffinnir ym Mharagraff 12, Rhan 1 o Atodlen 12A i'r Ddeddf honno a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.

7. **YMATEB Y CYNGOR SIR I GAM CYNTAF YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO (PAC 1) HORIZON NUCLEAR POWER**

I ystyried adroddiad gan y Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy.

8. **CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD**

Gofynnwyd y cwestiwn isod y cafwyd rhybudd ohono gan Gynghorydd R.Ll. Jones i Arweinydd y Cyngor :-

" Mae ymgynghoriad Wylfa B bellach wedi cychwyn ac rydym ni, fel Cyngor Sir, wedi cael sawl cyfarfod gyda'r datblygwr yn egluro'r holl fanteision a ddaw i'r ynys hon yn ei sgil.

Er bod trigolion lleol eisiau swyddi, maent yn parhau i fod yn bryderus iawn am y risgiau a'r angen i edrych ar ôl y gwastraff y bydd gorsaf bŵer niwclear ar Ynys Môn yn ei gynhyrchu. Er mwyn cael cydbwysedd, rwy'n gofyn am gael trefnu SEMINAR rhwng y Cyngor hwn a chynrychiolwyr sy'n gwrthwynebu'r cynnig i adeiladu Wylfa B ac yn gofyn i chi a'ch grŵp mwyafrifol gefnogi hyn. Mae angen i drigolion lleol gael llais yn yr ymgynghoriad hwn a chael eu briffio'n llawn. Hyd yma, ymddengys mai dim ond datblygwr tramor o'r Almaen, sydd bellach wedi tynnu allan, ac o Japan sydd wedi rhoi eu barn i ni. Nid oes yr un o'r gwledydd hyn eisiau adeiladu gorsafoedd niwclear yn eu gwledydd eu hunain."

**9. <u>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – YR AMSERLEN DDIWYGIEDIG</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd.

**10. <u>DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R ADRODDIAD ADOLYGIAD CANOL-BLWYDDYN</u>**

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro, fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014.

**11. <u>CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR AM 2015-16</u>**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro, fel a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 1 Rhagfyr 2014.

**12. <u>DYDDIAD CYFARFOD Y CYNGOR SIR - MAI, 2015</u>**

I ystyried ail-drefnu dyddiad y cyfarfod o'r Cyngor Sir ar 7 Mai, 2015 o'r herwydd yr etholiad Seneddol.